# Cyflwyniad i’r 6ed yn Ysgol Plasmawr



# Gwisg y Chweched Dosbarth

Mae polisi gwisg ysgol y Chweched yn hyrwyddo arfer dda wrth baratoi disgyblion i fyd gwaith. Disgwyliwn i aelodau'r Chweched wisgo'n drwsiadus gan osod esiampl dda i gymuned yr ysgol.

| | |
|---|---|
| 1. Trowsus : | Du neu lwyd, ffurfiol (dim jeans / leggins) |
| 2. Sgert: | Du neu lwyd, ffurfiol |
| 3. Crys: | Gwyn |
| 4. Siwmper neu Gardigan swyddogol y chweched yn unig* | |
| 5. Esgidiau: | Du, dim esgidiau ymarfer |
| 6. Tei: | Tei Chweched Dosbarth* |
| 7. Tlysau / Colur: | Fel y byddai'n addas i fyd gwaith. Tlysau clust yn unig gyda gwallt yn unol â pholisi'r ysgol o liw naturiol. |

*Gellid prynu siwper/ cardigan y chweched o siopau YC Sports. Bydd tei'r Chweched ar gael o'r ysgol ar ddydd canlyniadau/bore anwytho ac ar ddechrau'r tymor ym mis Medi ar gost o £10.00.



**Canllawiau ar gyfer myfyrwyr a fydd yn dychwelyd i Blasmawr**

Fel myfyrwyr hŷn yr ysgol, fe welwch gryn newid yn y rhyddid personol a gewch ac yn y cyfrifoldebau y bydd disgwyl i chi ymgymryd â nhw. Teg, felly, yw rhoi rhywfaint o arweiniad ynglŷn â'n disgwyliadau ohonoch.

- **Hybu Cymreictod yr Ysgol**

Fel oedolion ifanc sydd wedi dewis parhau â'ch astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg byddwch yn awyddus i weld balchder yn yr iaith a'i defnydd ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Wrth reswm, byddwch yn ennyn edmygedd a pharch y disgyblion iau. Bydd ymwneud â'r disgyblion hyn mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac yn cadarnhau Cymreictod yr Ysgol. Gyda hyn mewn golwg gobeithiwn weld myfyrwyr y Chweched yn datblygu cysylltiadau o bob math wrth achub ar y cyfle i sgwrsio â'r disgyblion iau, trafod eu diddordebau a'u hannog yn gyffredinol.



- **Dewis y llwybr cywir**

Eich dewis chi yw pa gyrsiau sydd yn fwyaf addas ac sydd yn ateb eich gofynion unigol chi. Bydd penaethiaid adran, tiwtoriaid personol a'r tîm cynnydd yn gallu eich cynghori ynglŷn â pha lwybrau i'w dilyn. Ni fydd unrhyw benderfyniad yn gadarn hyd nes cyflwyno canlyniadau unigol ddiwedd Awst. Yn draddodiaol cynhelir tîm CA5 'Bore Cynghori' yn dilyn derbyn neu canlyniadau TGAU. Yn ogystal â hyn bydd rhaglen anwytho a chroesawu i'r Chweched Dosbarth ddechrau Tymor yr Hydref er mwyn cynorthwyo pob myfyriwr i ddewis cyfuniad o astudiaethau addas.

# Protocol Mynediad a Chwricwlwm Blwyddyn 12/13

*(Adolygwyd ar gyfer Medi 2024)*

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn cynnig arlwy eang o gyrsiau ôl-16 yn cynnwys Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol, Tystysgrifau Lefel 3 CBAC, Cyrsiau BTEC ac Agored Cymru Lefel 3 yn ogystal a chyfle i ddisgyblion ail-sefyll arholiadau TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg. Trwy ein partneriaeth gydag ysgolion uwchradd eraill sir Caerdydd (Partneriaeth BroPlasTaf) rydyn ni'n cynnig cyrsiau i ddisgyblion ysgolion eraill ac mae ein disgyblion yn cael mynediad i gyrsiau mewn ysgolion eraill. Gweler y rhestr o bynciau partneriaeth sydd ar gael ac mewn eithriadau bydd modd i rai disgyblion ddilyn pwnc mewn ysgol barteriaeth os bod hyn yn ffordd o ddatrys gwrthdaro mewn colofn. Ni fydd modd dilyn pwnc mewn ysgol bartneriaeth os mae ar gael yn y fam ysgol.

**Mynediad i'r Chweched Ddosbarth: Blwyddyn 12**

Mae croeso i ddisgyblion blwyddyn 11 o unrhyw ysgol cyfrwng Cymraeg gwneud cais am le ym mlwyddyn 12 yn yr ysgol. Byddwn ni'n ystyried pob cais i sicrhau bod modd i ni gynnig arlwy priodol i gymaint o ddisgyblion â phosib.

Er mwyn cael mynediad i gyrsiau yn y chweched dosbarth rhaid derbyn o leiaf 5 A*-C TGAU neu gyrsiau cyffelyb. Os dymunwch astudio pwnc sy'n dilyn o gwrs TGAU disgwylir gradd C o leiaf yn y TGAU perthnasol. Os yw disgybl yn derbyn 4 A*-C TGAU neu gyrsiau cyffelyb ac yn ail-sefyll cyrsiau TGAU mis Tachwedd blwyddyn 12 gellid ystyried ceisiadau am le dros dro tan fo'r canlyniadau arholiadau ail-sefyll yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau mis Ionawr.

**Mynediad i'r Chweched Ddosbarth: Blwyddyn 13**

Er mwyn parhau gyda chwrs o flwyddyn 12 i flwyddyn 13 rhaid bod yn llwyddiannus yn y flwyddyn gyntaf. Ar gyfer cyrsiau Safon Uwch/Uwch Gyfrannol rhaid derbyn gradd A-E yn y cwrs Uwch Gyfrannol. Ar gyfer cyrsiau eraill rhaid dangos llwyddiant yn yr unedau gwaith perthnasol - mae hwn yn cael ei ddisgrifio'n wahanol ar gyfer cyrsiau gwahanol.

Os nad yw unigolyn yn llwyddo mewn digon o gyrsiau blwyddyn 12 i gael mynediad i gwricwlwm priodol ym mlwyddyn 13 bydd rhaid trafod opsiynau gyda'r pennaeth blwyddyn. Gall hwn gynnwys ail-sefyll y flwyddyn os oes tebygolrwydd fydd unigolyn yn medru llwyddo yn y cyrsiau gyda mwy o amser, ail-ddechrau blwyddyn 12 gyda chyrsiau gwahanol neu ystyried opsiynau tu allan i'r ysgol. Os yw unigolyn yn parhau yn yr ysgol byddant ar broses monitro i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen i lwyddo. Os nad ydynt yn cyrraedd y safonau angenrheidiol bydd rhaid ystyried opsiynau mwy priodol.

**Cwricwlwm Blwyddyn 12**

Mae disgwyl i bob myfyriwr astudio'r fagloriaeth ac o leiaf dau gwrs arall a bydd y mwyafrif yn astudio tri chwrs arall. Gall rhai unigolion ddechrau astudio'r fagloriaeth a phedwar cwrs arall ond bydd rhaid trafod hwn gyda'r pennaeth blwyddyn.

**Cwricwlwm Blwyddyn 13**

Mae disgwyl i bob myfyriwr astudio'r fagloriaeth ac o leiaf dau gwrs arall a bydd rhai yn astudio tri chwrs arall. Ym mlwyddyn 13 gallwn drafod addasiadau yn y cwricwlwm mewn amgylchiadau arbennig i unigolion sy'n astudio o leiaf pedwar cwrs Safon Uwch ond bydd disgwyl i bawb arall astudio'r fagloriaeth gyda dau neu dri safon uwch. Nid oes modd dilyn llai na'r fagloriaeth a dau cwrs safon uwch neu gyffelyb.

- **Blwyddyn 12 / 13 – Dewis Cyrsiau**

Gellir dewis llwybr cyrsiau Uwch Gyfrannol (AS) ym mlwyddyn 12 gan arwain at gyrsiau Safon Uwch llawn (A2) ym mlwyddyn 13. Mae llwybrau eraill yn bosibl hefyd, megis dilyn cyrsiau BTEC, ail-sefyll neu gyrsiau Uwch Gyfrannol, neu gymysgedd o'r tri.

***Cwriwlwm posib:***

| | | |
|---|---|---|
| 2 Uwch Gyfrannol a'r Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch | Nifer fach o ddisgyblion | Ychydig o risg |
| 3 Uwch Gyfrannol a'r Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch | Cydbwysedd da – mwyafrif o'r myfyrwyr yn dilyn yr opsiwn yma | Record cryf o lwyddiant.<br>Cadw opsiynau ar agor. |
| 4 Uwch Gyfrannol a'r Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch | Lleiafrif MATh Disgyblion academaidd sydd yn awyddus i gadw opsiynau ar agor | Nifer yn gostwng i 3UG yn ystod y flwyddyn. |
| *Pawb yn dilyn* Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch *gyda'u pynciau UG ac Uwch* | | |


- **Cyfnodau Astudio Unigol / Cyfnodau Rhydd / Dyletswyddau**


Fel myfyrwyr cyfrifol disgwylir ichi sicrhau cydbwysedd yn eich amserlen rhwng gwersi ffurfiol, cyfnodau o astudio personol a'r cyfle i hamddena. Byddwn fel ysgol yn eich annog i drefnu'r cyfnodau'n rhesymol, fel eich bod yn gallu manteisio ar yr adnoddau gwaith sydd ar eich cyfer yn yr ysgol, yn ogystal â chyfleoedd i ymlacio gyda chyfeillion. Ar adegau penodedig yn ystod y dydd bydd gennych yr awdurdod i weithredu rhai dyletswyddau yn ôl y galw. Gall yr adegau'r rhain gynnwys cyfnod y bore / gwasanaeth ac amser egwyl. Bydd angen ichi sicrhau diogelwch y plant iau ond ar yr un pryd ennill eu parch. Dylid delio â phob sefyllfa'n gadarn ac yn gyfrifol.

Byddwch hefyd yn arolygu ymddygiad ar y bysiau ac yn adrodd yn ôl i athrawon yr ysgol am unrhyw ymddygiad neu agwedd amhriodol.

- **Partneriaeth Chweched Dosbarth**

Bwriad y bartneriaeth rhwng Plasmawr a Ysgolion Glantaf a Bro Edern yw cynnig dewis cwricwlaidd ehangach trwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnir trafnidiaeth ar gyfer pynciau swyddogol partneriaeth **yn unig** ac mae hyn yn digwydd yn ystod cyfnodau cofrestru, egwyl a chinio. Gweler y colofnau am fwy o wybodaeth ynglŷn â phynciau sydd yn cael eu cynnig eleni. Mae argaeledd y pynciau yma yn ddibynnol ar lleiafswm ac uchafswm o fyfyrwyr yn ôl gofynion yr ysgol sy'n cynnig.




- **Presenoldeb / Prydlondeb**

Disgwylir presenoldeb uchel a phrydlondeb i gofrestri, i wersi, i gyfarfodydd ac i ddyletswyddau. Bydd angen nodyn absenoldeb, am unrhyw gyfnod o salwch. Tanlinellir pwysigrwydd esgusodi am absenoldebau sy'n ymwneud â chyrsiau penodedig. Bydd rhaid rhoi gwybodaeth benodol i'r tiwtor personol / arweinydd cynnydd ymlaen llaw. Cwrteisi sylfaenol sy'n perthyn i fyd yr oedolyn yw'r pethau hyn a gwerthfawrogwn eich cydweithrediad.

- **Cyfrannu at fywyd yr ysgol yn ei amrywiol agweddau**

Yn ogystal â hyrwyddo a chadarnhau Cymreictod yr ysgol, gall myfyrwyr hŷn gyfrannu'n helaeth drwy fod o gymorth ar nosweithiau rhieni, cyngherddau, ffeiriau

ac ati a thrwy hybu cysylltiad agos rhyngom â'r gymuned leol.  Disgwylir i chi gynorthwyo â gwaith elusennol, yr henoed, yr anabl a phlant ifanc






# Bywyd yn y Chweched

- **Cyngor y Chweched**

Etholir dau aelod o bob dosbarth cofrestru i'r cyngor 6ed. Er hyn, mae gwahoddiad agored i bob cyfarfod, a gynhelir yn wythnosol. Trafodir unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Chweched ac yn aml trefnu digwyddiadau cymdeithasol, elusennol a chodi arian y byddwn. Mae'r Cyngor yn ethol swyddogion i'w arwain, Cadeirydd, Is-gadeiryddion, Trysoryddion ac Ysgrifenyddion, y swyddogion hyn yn aml sy'n cynrychioli'r Chweched mewn digwyddiadau ffurfiol.

- **Swyddogion**

Bydd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn medru gwenud cais arbennig i fod yn Uwch Swyddogion sy'n derbyn cyfrifoldebau arbennig. Allan o swyddogion yma bydd Prif Fachgen a Phrif Ferch yn cael eu hethol.




- **Elusen y Chweched**

Bob blwyddyn mae Cyngor y Chweched yn penderfynu ar elusen i'w gefnogi yn ystod y flwyddyn. Yn y gorffennol, cefnogwyd elusennau megis Apêl Arch Noa ; Dolen Cymru; Ymchwil Prydeinig y Galon; Llamau; Elusen HIV / AIDS; Mind Cymru; Bopath; Maggies a Ty Hafan. Fel rhan o galendr elusennol y Chweched mae nosweithiau Cyri, Sineaidd a chwisiau wedi dod yn boblogaidd iawn.



- **Elusennau Llys**

Mae’r Chweched wedi codi arian yn ogystal i elusennau llys yr ysgol ac wedi cymryd rôl flaenllaw yn trefnu’r Hwyl Ras, Rhynglysol a gweithgareddau llys. Eisoes codwyd swm anrhydeddus trwy amrywiol ddulliau a phrosiectau.

- **Nosweithiau i Fl 7 & 8**

Ers sefydlu’r Chweched, rydym wedi trefnu nifer o bartïon i flynyddoedd iau'r ysgol, gan gynnwys nosweithiau Calan Gaeaf, Parti Nadolig a Disgo Santes Dwynwen. Bu’r gweithgareddau yn llwyddiannus ac yn ffordd dda o godi arian at elusen y Chweched. Ffurfiolwyd hyn bellach drwy glwb misol i flwyddyn 7 sef P67 sy’n cael ei gynnal gan swyddogion y 6ed.

- **Eisteddfod, Mabolgampau a Chwaraeon Rhyng-lysol.**

Mae pob llys yn ethol capteiniaid llys ac mae’r 6ed yn allweddol yn hybu gweithgareddau dwl a difrifol o fewn yr ysgol. Mae cystadlaethau'r 6ed adeg yr eisteddfod bob amser i’w mwynhau ac arweiniad y myfyrwyr hŷn ymhob gweithgaredd yn allweddol. Mae gan capteniaid y llysoedd rôl hanfodol yn hyrwyddo’r tri llys drwy’r ysgol sef Taf, Elai a Rhymni.






- **Y Ganolfan 6ed - Ystafelloedd Gwaith**

Mae'r Ganolfan 6ed newydd pwrpasol gyda dwy ystafell waith ac ystafelloedd dysgu. Bydd copi o brosbectws colegau a Phrifysgolion Prydain ar gael yn ogystal â llyfrau cyfeiriol a gyrfaoedd.  Mae dros ugain o gyfrifiaduron a'r un nifer o gluniaduron at bwrpas y Chweched yn unig, ynghyd ag ystafelloedd gwaith tawel i gwblhau gwaith ymchwil.  Bellach mae nifer o'r chweched yn dod a'i offer eu hun i'r ysgol er mwyn defnyddio'r adnodd diwifr.





- **Chwaraeon y Chweched**

Mae tîm cyntaf Rygbi, Pêl-rwyd, Pêldroed a Hoci yr ysgol eisoes wedi eu sefydlu yn llwyddiannus. Ers dyfodiad yr ystafell ffitrwydd mae'r chweched wedi mwynhau yr hawl i'w ddefnyddio adeg cyfnodau di-gyswllt ar ôl derbyn hyfforddiant o'r adran Addsyg Gorfforol.  Mae aelodau o'r 6ed hefyd yn defnyddio Canolfan Hamdden Y Tyllgoed I nofio neu chwarae gemau o badminton a sboncen.





**Safleoedd Wê Defnyddiol:**

www.cbac.co.uk

www.ucas.com

www.careerswales.com/cy/

https://qualifications.pearson.com/en/home.html

https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/tystysgrif-her-sgiliau-bagloriaeth-cymru-uwch#tab_overview

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/

**NODIADAU**